GOSOD ARWYNEB AR ATREDFA CHARLIE

Y Tîm a Wnaeth y Gwaith

Hollingsworth Bros UK Cyf

Cleient

AUK

Gwerth

£160,000

Ymgynghorwyr

Capita Symonds (Sifil ac Awyrennau)

Manylion

Y Cefndir: Adeiladwyd Atredfa Charlie yn yr 1940au ac mae'n cael ei ddefnyddio heddiw i gyrraedd yr awyrendai o'r llwybrau glanio gerllaw.

Hawker Beechcraft Ltd sy'n defnyddio'r awyrendai ar hyn o bryd i wasanaethu eu hawyrennau.

Cafodd Hollingsworth Bros UK Cyf y contract i roi arwyneb newydd ar 4416m² o'r atredfa drwy ei osod dros yr wyneb oedd yno'n barod.

Y dull o adeiladu oedd gosod haen 40mm o drwch o wyneb asffalt mastig carreg (SMA), a'i osod dros system atgyfnerthu palmant Glasgrid, oedd hefyd yn trin y craciau yn wyneb y llwybr glanio oddi tano.

Cafwyd gwaith tirlunio ychwanegol hefyd ar ymylon yr arwyneb newydd i'w gyfuno gyda'r tir gwreiddiol gyda phridd a gludwyd i mewn i'r safle a'i hadu gyda chymysgedd Birdstrike.

Rhoddwyd yr holl linellau gwyn yn ôl i gyd-fynd â'r gofynion gwreiddiol.

Hollingsworth Bros (UK) Cyf
St. Ives Way
Engineer Park
Sandycroft
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

www.hollingsworthgroup.co.uk

Y RHAGLEN

Cytunodd Hawker Beechcraft Cyf gau am gyfnod o 48 awr dros benwythnos. Roedd hyn yn golygu bod Hollingsworth Bros UK Cyf yn cychwyn gweithio am 6.00pm ar nos Wener.

Cludwyd adnoddau i mewn i'r safle i gwblhau'r gwaith o fewn yr amser hwnnw, gyda pheiriannau ychwanegol (Barbour Green, cynllunydd, injan rolio, peiriant rhannu tarmac), ar y safle rhag ofn y byddai rhywbeth yn torri.

Defnyddiodd Hollingsworth Bros UK Cyf yr offer ychwanegol yma wrth ddefnyddio'r peiriannau fel adnoddau ychwanegol, gan ostwng amser cwblhau'r gwaith o osod yr wynebu i gyfnod o 16 awr.

ARLOESI

Cynigiodd Hollingsworth Bros UK Cyf ddefnyddio haen arwyneb Masterpave mewn cyfuniad â Glasgrid CG50 (sef system gyfansawdd a gynhyrchwyd gan Saint-Gobain o atgyfnerthu'r palmant a rhwystro lleithder). Mae defnyddio'r deunydd yma'n ymestyn bywyd y palmant, yn gostwng ac yn atal craciau yn y palmant ac yn ei alluogi i gynnal mwy o bwysau.

BODDHAD Y CLEIENT

Mynegodd AUK foddhad a phleser mawr fod y prosiect wedi'i gyflawni o fewn y cyfnod hwnnw pan oedd ar gau, ac o fewn y gyllideb, heb unrhyw amhariad ar waith Hawker Beechcraft Ltd.